## Cwblhau darlith SIAN RHIANNON ym Mhrifwyl Casnewydd

# Y Wasg Gymraeg yng Ngwent

Yng Ngwent roedd mudiad y Cymreigyddion hefyd yn amcanu cyhoeddi llyfrau Cymraeg ar bynciau amrywiol, ac wrth edrych ar gynnwys llawer o'r cyfnodolion enwdol yn y blynyddoedd cynnar fe welwn ni bod nifer o'r golygyddion yn gwneud ymdrech i gyhoeddi deunydd ar bynciau ar wahan i grefydd.

Gellir sôn am ambell gyfrol a gyhoeddwyd yn sir Fynwy ar bynciau amrywiol, *Nicotania y llysieuyn tybacco* — cyfrol yn sôn am ysmygu! 1843 yn un, a llythyrau'r ymfudwyr, *Newyddion Da o Wlad Bell* yn un arall. Ond prin iawn yw'r llyfrau a'r pamffledi ar destunau cyffredinol. Ar y cyfan ceir pregethau, mocswcrsi, dadleuon diwinyddol, esboniadau a chofiannau gweinidogion.

* * *

DYW natur grefyddol cynnyrch y wasg Gymraeg ddim yn syndod o gofio'r cysylltiad clos rhwng y gweisg a'r grefydd Anghydffurfiol. Fel y gwelsom sefydlwyd llawer o weisg Sir Fynwy gyda'r bwriad o gyhoeddi cyfrolau enwadol ac roedd nifer o weinidogion yn berchen ar weisg, Nefydd, John Jenkins, Hengoed a David Stephenson i enwi ond tri.

Yn ogystal â hyn roedd y gweinidogion yn chwarae rhan flaenllaw iawn yn y byd cyhoeddi fel cyfranwyr, golygyddion a chyhoeddwyr. Ac os edrychwn ni ar y drefn i ddosbarthu cylchgronau a llyfrau yn y cyfnod fe welwn fod hyn eto o dan reolaeth y gweinidogion.

Roedd 'na ryw fath o rwydwaith ddosbarthu'n bodoli ymhlith gweinidogion y capeli Anghydffurfiol. Byddai'r gweinidog neu ddiacon blaenllaw yn derbyn copïau o gyfnodolion a llyfrau gan gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr ac yn eu dosbarthu a'u gwerthu ar ôl y cwrdd nos Sul. Doedd pawb ddim yn gytûn ynglŷn â phriodoldeb y drefn yma. Yn 1842 er enghraifft, ceir trafodaeth yn *Y Diwygiwr* wedi i rywun fynegi fod gwerthu cyhoeddiadau yn y capel yn tarfu ar sancteiddrwydd y Saboth.

Y Parch. Hugh Jones, Tredegar, (Cromwel o Went) 'sgrifennodd er mwyn amddiffyn yr arfer. "Pe na chaniateid gwerthu cylchgronau yn y cwrdd," meddai, "buasai'r bobl yn colli cyfrwng pwysig o wybodaeth" oherwydd dyma'r prif ddull o ddosbarthu'r cyfnodolion.

Ymhlith y rhai a werthwyd yn ei gapel ef roedd, *Cylchgrawn Rhyddid, Yr Athraw, Seren Gomer, Y Dirwestydd* a'r *Bedyddiwr*. Wrth gwrs nid y gweinidogion a'r diaconiaid oedd yr unig ddosbarthwyr, anfonai'r gweisg gylchgronau at siopwyr, tafarnwyr, crefftwyr lleol a rhai gweithwyr, ond yn sicr y capeli oedd prif gyfrwng dosbarthu.

* * *

BEIRNIADWYD y wasg Gymraeg oherwydd ei chysylltiad â chrefydd. Difriwyd hi gan ei beirniaid am fod cymaint o'i chynnyrch o natur enwadol a chrefyddol. A dyma un o'r prif ddadleuon a ddefnyddiwyd gan Gomisiynwyr 1847 wrth annog y Cymry i gefnu ar eu hiaith. Ni fedrai'r Cymry gynyddu mewn gwybodaeth tra'u bod nhw ddim ond yn medru darllen y deunydd a gyhoeddwyd yn Gymraeg meddid.

Dyma hefyd fyrdwn un o wyr amlyca' Merthyr bryd hynny, yr Ynad H.A. Bruce. Meddai,

> *... yn anffodus, does gan yr iaith brydferth hon ddim o'r math o lenyddiaeth a rydd i'r gweithiwr gyfle i ddringo ysgol cynnydd a dysgeidiaeth ... Peidiwch felly â meddwl fy mod yn anwladgarol os ... ystyriaf yr iaith Gymraeg yn ... faen tramgwydd i gynnydd fy nghydwladwyr.*

A chlywyd yr un dadleuon droeon gan Gymry yn ogystal â Saeson. Ond roedd arweinwyr yr Ymneilltuwyr, er eu bod nhw ar y naill law yn annog y Cymry i ledu eu gorwelion, hefyd yn ymhyfrydu yn y ffaith fod mwyafrif cynnyrch y wasg Gymraeg o natur grefyddol.

Ystyriai'r Parch. Thomas Rees, Cendl a llawer o weinidogion eraill yr ardal, fod y wasg Gymraeg yn gyfrwng i amddiffyn cymeriad moesol y Cymry mewn cymdeithas anfoesol llawn temtasiynau. Ofnent y canlyniadau pe caed nofelau anfoesol a disylwedd i lygru cymeriad y genedl.

Ac yn wir, erbyn ail hanner y ganrif roedd dylanwad Ymneilltuaeth wedi cynyddu i'r fath raddau fel bod gan y capeli a'r gweinidogion ryw fath o fonopoli dros y bywyd diwylliannol Cymraeg.

Cadarnhawyd a dwysâwyd eu dylanwad ar ôl helynt y Llyfrau Gleision, oherwydd wrth amddiffyn crefydd ac iaith y Cymry roedd Ieuan Gwynedd a'i gyd-weinidogion wedi sicrhau mai nhw fyddai cynrychiolwyr y genedl Anghydffurfiol Gymraeg, yn siarad ar ei rhan ac yn arwain y farn gyhoeddus.

Ar ôl 1847 teimlwyd hi'n rheidrwydd i brofi fod y Cymry gystal bob tamaid â'r Saeson, a daeth yr ymdrech i sefydlu ysgolion dyddiol yn rhan o genhadaeth y gweinidogion. Daeth Nefydd yn drefnydd i Gymdeithas yr Ysgolion Brutanaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd yn yr ardal i geisio perswadio rhieni i anfon eu plant i'r ysgol.

Tua'r un adeg cafwyd ymgyrch gan y gweinidogion i symud cyfarfodydd y Cymreigyddion a'r Cymdeithasau Lles o'r tafarndai i'r capeli. Mae'n arwyddocaol mai yng nghapel Nefydd, Salem Blaenau Gwent y cynhaliwyd eisteddfod mewn capel am y tro cynta' a Nefydd ei hun yn llywydd, a fe hefyd yn ennill y brif wobr, — traethawd ar fanteision addysg i'r dosbarth gweithiol.

Yn 1850 roedd hynny, ac yn ystod y blynyddoedd nesa' daeth y capel yn brif ganolfan y diwylliant Cymraeg. Yn wir, roedd yr iaith a'r diwylliant i bob pwrpas yn gyfystyr ag Anghydffurfiaeth.

* * *

OND ROEDD 'na ddeuoliaeth yn perthyn i agwedd yr Anghydffurfwyr at yr iaith Gymraeg, ac y mae hyn yn allweddol wrth ystyried dirywiad y diwylliant Cymraeg yn yr ardal. Os mai'r Gymraeg ar y naill law oedd iaith y nefoedd, yr iaith a fyddai'n amddiffynfa i foesau a chrefyddoldeb y Cymry, y Saesneg ar y llaw arall oedd iaith addysg, masnach, diwydiant, a — geiriau mawr y cyfnod — cynnydd a gwareiddiad.

Ac os oedd y gweinidogion am gadw'r iaith Gymraeg er mwyn sicrhau y byddai Cymru'n wlad y menyg gwynion, doedd neb yn fwy awyddus na nhw i weld y Cymry'n dod ymlaen yn y byd, felly dyma nhw ar y naill law yn dadlau dros gynnal y Gymraeg ac ar y llaw arall yn annog eu cynulleidfaoedd i anfon eu plant i'r ysgolion uniaith Saesneg.

Mae Nefydd ei hun yn nodweddiadol o agwedd y cyfnod. Er ei fod e'n llywydd y Cymreigyddion ac yn eisteddfodwr brwd, wnaeth e' ddim ymdrech o gwbl i gael ysgolion Cymraeg i blant y Cymry.

Yn Saesneg y cadwai Nefydd gofnodion Cymreigyddion y Blaenau ac fel ei gyfaill Hugh Owen credai y dylid defnyddio'r Eisteddfod Genedlaethol fel cyfrwng i addysgu'r genedl yn yr iaith Saesneg. Wrth osod cymaint o bwyslais ar addysg Saesneg fodd bynnag, roedd Nefydd a'i debyg yn paratoi'r ffordd ar gyfer y dydd pan na fyddai aelodau eu capeli yn medru darllen y llyfrau Cymraeg a gyhoeddent yn eu gweisg.

A hwyrach ei fod yn anorfod o ystyried natur y cynnyrch, a nifer o broblemau eraill a wynebai'r wasg Gymraeg, mai cefnu ar y wasg Gymraeg a wnaeth y Cymry wrth iddyn nhw ddysgu Saesneg. Mor gynnar â 1840 gofynnwyd, 'Paham y mae mwy o ddarllen Saesneg yng Nghymru nag sydd o Gymraeg?' Yr ateb a roddwyd oedd,

> *... am fod y prynwr mor lleied o nifer, a'r cyhoeddwyr mewn perygl o gael eu colledu. O ganlyniad, mae y darllenwyr yn troi at yr iaith y cant gymaint yn ychwnaeeg am eu harian.*

Ond nid arian oedd yr unig reswm,

> *... y mae amddiffynwyr gore u yr iaith wedi methu ei throsglwyddo i'w plant ... Y mae y Cymry bellach wedi deall yr amserau, a thuag at ddiwallu yr archwaeth hon y mae miloedd o newyddiaduron yn dyfod i'n mysg bob dydd ... ond nid oes un ohonynt yn ein hiaith ein hunain.*

* * *

FLWYDDYN yn ddiweddarach yr oedd Emyr Llydaw (Eiddil Ifor mae'n debyg) yn ceryddu'r werin weithfaol am ei bod yn derbyn y *Daily Times*, y *Weekly Dispatch*, yr *Examiner* a'r *Sun* a dywedodd 'mae llawer ohonoch yn frwdus dros ben am y *Northern Star*. Paham na fyddai ynoch ddigon o aidd i gadw i fyny un newyddiadur Cymraeg?'

Yr oedd y pris fel y crybwyllwyd eisoes yn un rheswm. Fel y dywedodd llywydd Cymreigyddion Isca Esyllwg (Rhisga) yn 1852,

> *Y mae y wraig, gresyn i adrodd, yn ceintach fod Sion yn talu triswllt bob chwe mis am Seren Gomer ... Llyfrynnau dwy geiniog yn y*

*i dud 19*